

Gofyn Ymlaen Llaw: cwestwin i'w ystyried cyn y sesiwn hon

A fedrwch chi feddwl am adeg pan ddangosodd rhywun haelioni ichi a aeth y tu hwnt i'ch disgwyliadau? Pa wahaniaeth wnaeth hynny i'ch bywyd?

Darlleniad o'r Ysgrythur: Marc 12.41-44

Eisteddodd Iesu gyferbyn â'r blychau casglu lle roedd pobl yn cyfrannu arian i drysorfa'r deml, a gwyllo'r dyrfa yn rhoi eu harian yn y blychau. Roedd llawer o bobl gyfoethog yn rhoi arian mawr. Ond yna daeth gwraig weddw dlawd a rhoi dwy geiniog i mewn (oedd yn werth dim byd bron). Dyma Iesu'n galw'i ddisgyblion ato a dweud, "Credwch chi fi, mae'r wraig weddw dlawd yna wedi rhoi mwy nag unrhyw un arall. Newid mân oedd pawb arall yn ei roi, gan fod ganddyn nhw hen ddigon dros ben. Ond rhoddodd hon y cwbl oedd ganddi i fyw arno."

Myfyrdod: Sut ydyn ni'n byw'n hael yng nghanol argyfwng costau byw?

Yn 2024, mae llawer o bobl yn y DU ac mewn gwledydd eraill ledled y byd yn ceisio ymgodymu ag argyfwng costau byw. Mae'n ddigon posib bod y rhain yn cynnwys aelodau o'ch eglwys chi sy'n ei chael hi'n anodd dal dau ben llinyn ynghyd. Efallai yr hoffai pobl rannu hyn gydag aelodau eraill y grŵp (ond efallai ddim). Byddwch yn ofalgar o hyn yn ystod eich trafodaethau.

Sut mae modd inni fod yn 'bobl sydd wrth eu boddau yn rhoi' (2 Corinthiaid 9.6) pan ein bod ni eisoes yn teimlo'r wasgfa neu'n waeth na hynny?

Pan fo pawb yn tynhau ar eu gwariant, gall y dasg o daclo tlodi ymddangos yn llethol. Fe wyddon ni fod sawl eglwys yn dal i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig. Efallai fod llai o bobl yn ymwneud â'ch eglwys ar hyn o bryd? Neu bod cyllid yr eglwys yn bryder, o bosib? Sut allwn fod yn hael gyda'n hamser, egni ac adnoddau pan rydyn ni eisoes yn teimlo eu bod nhw'n brin neu wedi'u gorymestyn?

Fe all yr hanesyn uchod ym Marc gynnig rhywfaint o anogaeth. Cyfeirir yn aml at y darn hwn fel stori 'hatling y wraig weddw'. Yr 'hatling' (neu 'lepton') oedd y darn arian lleiaf a oedd mewn defnydd yng nghyfnod Iesu, debyg i'r geiniog ein dyddiau ni. Fe all mai'r stori hon oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer yr ymadroddion fel 'dweud fy nghnegwarth' neu 'rhyw ateb ceiniog a dime' – sy'n cyfeirio at farn nad ydyn ni'n meddwl sy'n cyfrif fawr ddim.



Mae 10% mwyaf cyfoethog poblogaeth y byd at hyn o bryd yn cymeryd 52% o'r incwm byd-eang, tra bod hanner tlotaf y boblogaeth yn ennill 8.5% ohono. (Ffynhonnell: Adroddiad ar Anghydraddoldeb y Byd 2022).

Mae corff sylweddol a chadarn o ymchwil sy'n awgrymu bod gwledydd sydd â lefelau uwch o anghydraddoldeb yn meddu ar lefelau is o ymddiriedaeth.' (Ffynhonnell: Yr Ymddiriedolaeth Cydraddoldeb)

Mae rhodd y weddw yn bitw bach, cyn lleied ei gwerth fel ei bod yn ymddangos bron yn ddiwerth. Faint o wahaniaeth mewn gwirionedd y gall dwy geiniog eu gwneud? Er hynny, mae Iesu'n ei gweld ac yn gwneud sylw arni. Mae'n ymddangos ei fod yn canmol haelioni eithriadol y weddw. **Efallai mai diben y stori hon ydy dangos inni fod i weithredoedd bach o haelioni werth mawr a bod Du'wn cydnabod hyn.**

O feddwl am hyn ychydig pellach, fe welwn fod yma her yn ogystal ag anogaeth. Mae rhodd y weddw (er yn bitw bach mewn termau ariannol) wedi golygu trosglwyddo'r oll sydd ganddi. Efallai mai 'symiau mawr' fyddai 'pobl gyfethog' yn eu cyfrannu ond mae eu cyfoeth cyffredinol yn golygu nad ydy'r gost bersonol iddyn nhw, mewn gwirionedd, ond yn gymharol fach. Prin y bydden nhw'n sylwi'r gwahaniaeth o ddydd i ddydd. Felly, mewn termau real, gyda'i dwy geiniog, fe roddodd y weddw mwy na'r oll ohonyn nhw. Os ydy Iesu'n cyflwyno'r weddw fel esiampl inni, yna y disgwyliad ydy y byddwn ninnau yr un mor eithriadol yn ein rhoi. Mae'n ymddangos ein bod yn cael ein galw i fod yn hael hyd yn oed pan nad oes fawr ganddon ni yn weddill. **Mae hyn yn beth anodd i'w lyncu!**

Ond nid y stori yn ei chyfanrwydd ydy hon, fodd bynnag. Mae rhai esbonwyr ar y darn hwn wedi tynnu sylw at gyd-destun y sylw mae Iesu'n ei wneud. **Yn union cyn yr adnodau uchod, mae Iesu'n codi llais yn erbyn y rhai hynny mewn grym sy'n 'dwyn popeth oddi ar wragedd gweddwon', ac eto'n hawlio parch ac anrhydedd.** Mae'n ddig am system sy'n amddifadu pobl, sydd eisoes yn fregus, o'u tai a'u bywoliaethau.

Pan fo Iesu'n gwneud sylw ar haelioni'r weddw, felly, tybed ai ei brif ddiben ydy cwestiynu sut y bu iddi ganfod ei hun mewn tlodi eithafol? Pam y dylai ei rhodd hithau olygu gorfod ildio 'y cwbl oedd ganddi i fyw arno', tra bo eraill yn parhau yn ddedwydd eu byd? **A ydy pwyslais y stori'n llai ar roi o'n ceiniogau prin a mwy ynglŷn â herio system sy'n creu tlodi'r weddw yn y lle cyntaf?**

Fel yn aml yn Efengyl Marc, does yna ddim ateb syml. Wyddon ni ddim beth ddigwyddodd i'r weddw wedi iddi wneud ei chyfraniad. A dydy ni ddim yn cael clywed ganddi'n uniongyrchol am ei phrofiad a beth ddaeth â hi i'r fan yma. Fe all rhodd y weddw daflu goleuni inni ar system anghyfiawn mewn ffordd arall. Awgryma Sam Wells (ficer St Martin-in-the-fields yn Llundain) fod y stori'n dangos inni'r gwahaniaeth rhwng **economi helaethrwydd** Duw a'r **economi prinder** a brofir yn ein byd pechadurus.*

Mae Duw'n addo 'bywyd ar ei orau' i ni – gras, tangnefedd, cyfiawnder a gorfoledd diddiwedd, di-ffael. Dyna'r hyn mae Duw'n ei ddymuno i ni a'r hyn y mae Duw'n ei ddymuno inni ei estyn i eraill, trwy weithredoedd o haelioni a chariad. Dyma ydy economi helaethrwydd.

Ond neges arall ydy'r hyn a glywn gan y byd o'n cwmpas ac yn aml o'r tu mewn i ni'n hunain. Y neges hon ydy ein bod wastad yn brin, bod beth bynnag sydd ganddon ni ddim yn ddigon. Does yna ddim digon i'w rannu, medden nhw; rhaid inni neilltuo yr hyn a allwn i ni'n hunain, jest rhag ofn. Dyma ydy economi prinder.

*Sam Wells, *God's Companions: Reimagining Christian Ethics* (2006)

Ymwrthod â'r neges hon mae'r weddw. Mae hi'n rhoi fel tase ganddi ddim angen am unrhyw beth. Mae'r cyfranwyr cyfoethog yn meddu ar bopeth sydd ei angen arnyn nhw ond yn cadw rhywbeth yn ôl. Mae'r weddw, yn ôl safonau cyfnod Iesu a'n cyfnod ninnau, yn 'annoeth' yn nhermau'r byd. Mae'r cyfoethog yn fwy rhesymol, gan eu bod nhw'n pwysu a mesur ac yn dal yn ôl rhag bod yn rhy hael. Dydy hyn ddim i wneud yn fach na glamoreiddio gwir effaith tlodi eithafol y weddw. Ond mae'n awgrymu y gall haelioni fod yn weithred herfeiddiol. Pan y clywn ein bod yn brin neu'n ddiffygiol; **pan fo'r byd yn dweud wrthon ni y dylen ni ddal yn ôl, gall ein haelioni ddatgelu gweledigaeth wahanol. Efallai bod ein dwy geniog ninnau'n cyfrif am fwy nag a feddyliwn.**

Gwrandewch: Stephen Amusala, Gwasanaeth Datblygu Anglicanaidd Gorllewin Kenya



Gwrandewch yn <https://soundcloud.com/actonpoverty> (7 munud)

Mae Stephen Amusala yn Gyfarwyddwr ADS Western, asiantaeth ddatblygu cymdeithasol yr Eglwys Anglicanaidd yng Ngorllewin Kenya. Mae'n trafod yr argyfwng costau byw yn Kenya a rôl newid hinsawdd yn hyn. Dywed Stephen wrthon ni sut mae gweithredoedd o haelioni cariadus a gweithio mewn partneriaeth wedi gwneud gwahaniaeth yn ei gyd-destun yntau.

Mae Stephen yn disgrifio sut y gall anobaith fagu lle bo tlodi. Mae hefyd yn sôn am yr hyn y gellir ei wneud mewn ymateb. **"A ydy Duw'n fy ngharu?" - ydy hwn yn gwestiwn rydych chi wedi gofyn yn ystod eich bywyd? Beth ysgogodd y cwestiwn? A wnaeth pobl o'ch cwmpas ddangos cariad Duw tuag atoch? Sut wnaeth hyn amlygu'i hun?**

Gwrandewch: Y Ddiacones Kerry Scarlett, Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd



Gwrandewch yn <https://soundcloud.com/actonpoverty> (8 munud)

Kerry Scarlett ydy Is-lywydd Y Gynhadledd Fethodistaidd yn 2023/24ac yn Swyddog Dysgu a Datblygu gyda'r Eglwys Fethodistaidd. Cewch ei chlywed yn siarad am ei phrofiad o gael ei mhagu yng nghanol y gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon, ei phrofiad gweiniogaethol gyda chymunedau'n profi amddifadedd economaidd, a'r manau lle y profodd haelioni yn ei bywyd.

Ysbrydoliaeth: Street Banquet, Birmingham



Gwylwch ein ffilm fer yma: <https://youtu.be/i-6CwBDikXg>

Yn yr adnodd sain uchod, mae Kerry Scarlett yn trafod ei phrofiad yn gwirfoddoli gyda Street Banquet, menter yr Eglwys Fethodistaidd Birmingham. Mae Street Banquet yn cynnig prydau parod a chymdeithas i'r rhai digartref a'r bregus ac yn eu gwahodd i ymuno mewn cynnig prydau i eraill. Yn y fideo hon, fe gewch fwy o wybodaeth am Street Banquet fel man lle'r rhennir haelioni, lle bo'r gwahoddedigion eu hunain yn cael cynnig y cyfle i weini.



Gwrando ychwanegol: Stef Benstead ar Gomisiwn Gwirionedd am Dlodi, Manceinion

Gwrandewch yn <https://soundcloud.com/actonpoverty> (1 munud)

Cyn ichi drafod y camau isod, gwrandewch ar y darn byr yma lle mae'r ymgyrchydd anabledd, Stef Benstead, yn siarad am ei rhan yn y Comisiwn Gwirionedd am Dlodi ym Manceinion.



Taclo Tlodi – Beth allech chi a'ch eglwys ei wneud?

Fel y disgrifia Stephen Amusala, gall eglwysi ysgogi newid trwy siarad â'u cynrychiolwyr gwleidyddol. Wrth weithredu ar y cyd, mae hi'n bwysig sicrhau ein bod yn gwrando ar y rhai hynny yn ein mysg sydd â phrofiad bwy o dlodi. Mae'r Comisiwn Gwirionedd am Dlodi yn un ffordd o ddod ag unigolion a grwpiau at ei gilydd sy'n medru siarad o'r safbwynt yma, ynghyd â'r rhai hynny sydd â'r grym i wneud newidiadau, yn lleol ac yn genedlaethol.

Cam 1: Gwrandewch ar ein darn sain ychwanegol ar gyfer y sesiwn hon (sydd â'r ddolen-gyswllt uchod), lle clywir Stef Benstead yn amlinellu ei hymwneud â'r Comisiwn Gwirionedd ar Dlodi ym Manceinion. Ystyriwch lle yn eich eglwys a'ch cymuned y mae lleisiau'r rhai hynny sydd â phofiad byw o dlodi yn cael eu clywed a chymau'n cael eu gweithredu.

Os ydy hyn eisoes yn faes cryf i'ch eglwys, fe allech chi feddwl p'un ai a oes ffyrdd newydd i rannu'r hyn rydych chi'n ei gyflawni, gan alluogi eraill i ddysgu ganddoch chi. Os hoffech wybod mwy, cewch ddarllen adroddiad Comisiwn Gwirionedd am Dlodi Manceinion yma:

<https://www.church-poverty.org.uk/manchesterpovertytruth/>

Ac fe allwch chi ganfod mwy am Gomisiynau Gwirionedd am Dlodi yma:

<https://povertytruthnetwork.org/commissions/what-is-a-poverty-truth-commission/>

Cam 2: Cadwch lygad ar y newyddion yr wythnos hon a chwilio am enghraifft o haelioni, neu sefyllaf lla mae cam bach yn y cyfeiriad iawn wedi arwain at newidiadau mawr. Sgwennwch beth ynghylch yr enghraifft hon sydd wedi eich ysbrydoli. Efallai yr hoffech rannu yr hyn welsoch chi chi gydag eraill yn eich eglwys.

'Rydw i mor falch ein bod wedi medru, trwy gryn ymdrech, sgysiau, rhoi a derbyn, gyrraedd sefyllfa, wyddoch chi, lle bod tair o'n llywodraethau sirol wedi gallu, wyddoch chi, rhoi deddfwriaeth ar waith... fel bod ganddon ni fframwaith ar gyfer...ymyrru ar newid hinsawdd. Mae'n galluogi gweithredoedd hinsawdd lleol i fod yn gyraeddadwy. Weithiau pan fyddwch chi'n siarad am weithredu ar yr hinsawdd, fe all deimlo fel bod yna bethau mawr iawn sydd angen eu gwneud. Mae hynny'n wir, mae yna bethau mawr i'w gwneud, ond hefyd, i ni, y pethau bychain sydd angen eu gwneud. Y weithred honno o blannu a thyfu'r goeden honno. **Mae hi'n ymddangos yn fach, ond mae'n beth mor anferth.'**

Stephen Amusala, ADS Western

Ar y dudalen ganlynol, fe gewch hyd i amrywiad ar y Gwynfydau a gyfansoddwyd gan y Ddiacones Eunice Attwood, Swyddog yr Eglwys ar y Cyrion (Church at the Margins) i'r Eglwys Fethodistaidd. A oes unrhyw un o'r rhain sy'n sefyll allan i chi fel maes yr hoffech ofyn am gymorth Duw i wneud mwy?

Gweddïwch dros eich dewis bendith gyda'ch gilydd neu ar eich pen eich hunain.

Gwedd i Gloi

Mae'r rhai hynny sy'n herio strwythyrau economaidd anghyfiawn wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd nhw fydd arwyddion gobaith.

Mae'r rhai hynny sy'n cdi lleisiau a hanesion eraill wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd fe wnawn nhw ddysgu doethineb cyd-ddibyniaeth.

Mae'r rhai hynny sy'n cydnabod eu breuder a'u dryllni wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd fe wnawn nhw ymwrthod â bod yn achubwyr ac arwyr hanesion pobl eraill.

Mae'r rhai hynny sy'nymateb i anghenion eraill, heb yr angen am gydnabyddiaeth na gwobr wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd eu bod yn gwasanaethu Crist ei hun.

Mae'r rhai hynny sy'n protestio ac yn ymgyrchu wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd eu bod yn tynnu sylw at anghyfiawnder.

Mae'r rhai hynny sy'n meithrin cyfeillgarwch ymysg pobl amrywiol wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd fe fydden nhw'n tyfu'n gymuned gynhwysol.

Mae'r rhai hynny sy'n cynddeiriogi â dicter wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd eu bod nhw'n ein herio i wynebu gwirioneddau anghysurus.

Mae'r rhai hynny sy'n chwilfrydig wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd fe gânt weld y tu hwnt i atebion y rhai grymus.

Mae'r rhai hynny sy'n dathlu gwerth ac urddas pob person byw wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd fe fydden nhw'n adnabod wyneb Duw.

Mae'r rhai hynny sy'n gweithio dros gyfiawnder hiliol wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd mai nhw sy'n herio pechod hiliaeth ac yn adnabod gwir gyfoeth ac amrywiaeth delwedd Duw.

Mae'r rhai hynny sy'n galluogi arweinyddiaeth eraill wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd nhw sy'n cynnal y presennol a'r dyfodol.

Llanwenhewch a byddwch lawen, gan y bydd y rhai hynny sy'n gwrando ac yn dysgu o ddifrif gan bobl sy'n profi tlodi yn rhannu neges ryddhaol, bywiol Efengyl Crist.

Y Ddiacones Eunice Attwood

